

Cyfoeth Naturiol Cymru

Ein Cyf CAAS20413-W7C0
Eich Cyf: Sesiwn Gwrandawiad 11

Llwyn Brain,
Ffordd Penlan
Parc Menai,
Bangor
Gwynedd LL57 4DE

Ebost:
angharad.crump@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn: 03000 655 232

Sharon Ellis,
Swyddog y Rhaglen,
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn
Swyddfa'r Cyngor,
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL55 1SH

18/08/2016

Annwyl Miss Ellis,

**Cyflwyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyf. Rhif 1086 – Parc Busnes Porthmadog
Sesiwn Gwrandawiad 11
Dynodiadau a Safleoedd Amgen
Gwynedd – De**

Mae CNC yn dymuno darparu'r cyflwyniad ychwanegol i Sesiwn Gwrandawiad 11 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn – Dynodiadau a Safleoedd Amgen Gwynedd – Llŷn.

Mae'r cyflwyniad yma yn ymwneud â'r bwriad i ddynodi Parc Busnes Porthmadog dan Bolisi CYF1 i ddefnydd cyflogaeth.

Erbyn hyn rydym wedi cael cyfle i adolygu'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd a baratowyd gan Ymgynghorwyr Waterco (dyddiedig Awst 2016) ac a anfonwyd ymlaen atom ar ebost ar y 15fed o Awst 2016 yn uniongyrchol gan Cyngor Sir Gwynedd, ac mae gennym y sylwadau isod i'w gwneud ar y dynodiad arfaethedig.

Nodir, ar gyfer y mwyafrif o sefyllfaoedd, fod y safle dan sylw i weld yn rhydd o lifogydd yn ôl y 0.5% tebygolrwydd digwyddiad llifogydd gydag amddiffyniad, sy'n ystyried newid yn yr hinsawdd am y 100 mlynedd nesaf. Er hynny, mae llifogydd i ochr mwyaf gorllewinol y safle wedi ei nodi fel perygl pe byddai amddiffyniad llanw Cob Crwn yn cael ei fylchu (rydym hefyd yn ymwybodol fod y modelau yn adnabod risg tebyg sy'n gysylltiedig â bylchu posib o ddrysau llanw Cyt, er nad yw hyn wedi ei gynnwys yn yr ACLI.

Er nad yw wedi ei grybwyll yn yr ACLI mae'n werth nodi fod Canllaw Llywodraeth Cymru (llythyr at y prif swyddogion cynllunio, dyddiedig Ionawr 2014) yn dangos ar gyfer datblygiadau masnachol y

dylai newid yn yr hinsawdd gael ei ystyried dros 75 mlynedd – nid 100 mlynedd fel a gynrychiolwyd yn yr ACLI.

Pe byddai'r ACLI wedi ystyried 75 mlynedd o newid yn yr hinsawdd byddai yn deg tybio bod graddau y llifogydd o'r dynodiad arfaethedig yn amodol i lai o risg llifogydd na ddangosir yn Ffigwr 7 o'r ACLI.

Oherwydd yr uchod, ac o gofio y risg llifogydd cyfyngedig ni fyddem yn gwrthwynebu dynodiad y safle i ddefnydd cyflogaeth.

Er hynny, fel y dangoswyd yn yr ACLI bydd unrhyw gais cynllunio ar gyfer datblygiad ar y safle dynodedig – boed yn adeilad yn ei le neu'n adeilad newydd – angen dangos ei fod yn cydymffurfio gyda gofynion TAN 15 (A1.14 ac A1.15) ac felly byddai angen iddo gael Asesiad Canlyniadau Llifogydd penodol i'r safle. Fel y dangoswyd dylid ystyried 75 mlynedd o newid yn yr hinsawdd a phe byddai unrhyw ardaloedd yn dal i gael eu dangos fel risg llifogydd, byddai angen ymgorffori mesurau lleddfu yn y dyluniad.

Hyderwn fod ein sylwadau o gymorth i chi. Peidiwch â phetruso i gysylltu â ni os fedrwn fod o unrhyw gymorth pellach. Gallwn ymhelaethu ar unrhyw un o'r materion uchod yn ystod gwrandawriad sesiwn 11 pe byddai hynny o gymorth i'r Arolygwr.

Yn gywir

Angharad Wyn Crump
Uwch Swyddog Cadwraeth
Tim Gwaith Achos